**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

25 Hydref 2011

Annwyl Gyfaill

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal sesiwn dystiolaeth lafar ar **y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yng Nghymru**, ac yn benodol **goblygiadau iechyd cyhoeddus** cyfleusterau toiledau cyhoeddus annigonol.

I lywio ei waith, mae'r Pwyllgor yn cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig byr, â ffocws, cyn y sesiwn dystiolaeth lafar sydd i'w chynnal ym mis Ionawr 2012.

Dyma'r cwestiynau yr hoffai'r Pwyllgor i chi eu hateb fel rhan o'r ymgynghoriad:

- Beth yw effaith y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus (neu ddiffyg darpariaeth o'r fath) ar iechyd a lles cymdeithasol person?

- A oes tystiolaeth bod pobl yn methu â gadael eu cartrefi oherwydd pryderon ynghylch a fydd toiledau cyhoeddus ar gael? Os oes, beth yw goblygiadau hynny o ran iechyd a lles?

- A oes cydraddoldeb ledled Cymru – ac yng nghyswllt pob person – o ran y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus?
    - Sut y dylai cyfleusterau toiledau cyhoeddus ateb anghenion grwpiau gwahanol o bobl (dynion, menywod, pobl anabl, pobl ag anghenion iechyd arbennig, plant)?
    - A oes angen penodol am gyfleusterau gwell ar gyfer grwpiau penodol?

- Pa effeithiau ehangach y gallai darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus eu cael ar iechyd cyhoeddus a'r gymuned? Er enghraifft, mae gohebiaeth a anfonwyd at y Pwyllgor Deisebau yn awgrymu bod perygl o faeddu strydoedd, gyda chlefydau'n ymledu yn sgil hynny.

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8026
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Cylch gwaith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: iechyd corfforol, meddyliol a chyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol. O ganlyniad, bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar **oblygiadau iechyd cyhoeddus** y ddarpariaeth o gyfleusterau toiledau cyhoeddus ac ni fydd y Pwyllgor yn gallu ystyried:

- unrhyw ddyletswydd posibl ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau; neu
- unrhyw gyfleusterau unigol sy'n cael eu cau.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**
Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rheini sydd â diddordeb yn y mater hwn. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o swyddogaeth eich sefydliad.

Yn gyffredinol, byddwn yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig oherwydd mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi'r dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor ar ein gwefan fel bod cofnod cyhoeddus ohoni. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth mewn fformat sain neu fideo. Gellir cyflwyno tystiolaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, ond rydym yn gofyn bod sefydliadau sydd â Chynlluniau Iaith Gymraeg yn darparu ymatebion dwyieithog, lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â'u polisïau.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at **HSCCommittee@cymru.gov.uk.**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai cyflwyniadau ddod i law erbyn **dydd Gwener 23 Rhagfyr 2011**. Efallai na fydd modd i ni ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i ymchwiliad/bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys

gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**

**Rhestr ddosbarthu**

- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Age Cymru
- Senedd Pobl Hŷn Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfadran Iechyd y Cyhoedd
- Anabledd Cymru
- Mencap Cymru
- Scope Cymru
- Cymdeithas Toiledau Prydain
- Y Rhwydwaith IBS
- Sefydliad y Bledren a'r Coluddyn
- Cymdeithas Genedlaethol Colitis a Chlefyd Crohn
- Y Gymdeithas Cyngor ar Ymataliaeth
- Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan
- Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain
- Sefydliad Joseph Rowntree
- Comisiynydd Plant Cymru
- Plant yng Nghymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Un Llais Cymru
- Consortiwm Manwerthu Prydain